



Pobl a Phethe

Yn NATURiol

R S Thomas

Rhedwyr chwim

CYNRYCHIO LI CYMRU

Pysgota



pedwar cymal ar lynnoedd Trawsfynydd, Brennig, Clywedog a Llandegfedd. Dewiswyd aelodau'r tîm ar sail y tri sgôr gorau dros y pedwar cymal.

29ain o Fedi oedd diwrnod mawr y gystadleuaeth, gyda'r timoedd yn gorymdeithio lawr at y cychod o dan ffanfer o gerddoriaeth y chwiban Cymreig. Roeddwn i wedi fy mharu i bysgota gyda Sean McCaffrey o Scalloway, Ynysoedd y Shetland yn yr Alban. Dyma wr oedd wedi teithio 650 o filltiroedd i gyrraedd Trawsfynydd ar gyfer y gystadleuaeth. Yn dilyn cytuno mai fi fyddai'n cael injan y cwch, byrdwn y gystadleuaeth oedd pysgota o 10 y bore tan 6 yr hwyr a dal cymaint o frithyll a phosib yn y cyfnod hwnnw, cyn mynd ati i fesur pob un a'u rhyddhau nôl i'r dŵr yn ddiogel.

Hir yw pob aros wrth gwrs ac fe ddaeth y foment fawr o'r diwedd yn ystod Medi 2022. Tair blynedd o aros am y cyfle i gystadlu i fod yn fanwl gywir. Braint ac anrhydedd oedd cael cynrychioli fy ngwlad yn y gystadleuaeth bysgota plu rhyngwladol rhwng gwledydd Cymru, Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon ar Lyn Trawsfynydd. Bu sawl cam cyn llwyddo i gyrraedd y tîm a bu rhaid cymryd rhan mewn

Ewch i dudalen 12

Hoci'r Byd



Teithiodd Jane Bailey (yn y llun), Troedrhwiwseiri, Bontgoch, i Cape Town yn ddiweddar i gynrychioli Cymru yng Nghwpan Hoci'r Byd. Roedd Jane yn rhan o'r tîm menywod dros 60 ac fe chwaraeodd mewn 6 gêm rhwng y 1af a'r 9fed o Hydref. Cafodd y tîm hwyl dda iawn-ennill tair gêm, dwy gêm gyfartal a dim ond colli un gêm yn ystod yr ymgyrch, gan sicrhau'r 5ed safle. Llongyfarchiadau i Jane a'r tîm.

Treialon Cŵn Defaid



Dewi Jenkins

Mae Dewi Jenkins, Tynygraig wedi cael haf prysur yn teithio ar draws y wlad o un treialon cŵn defaid i'r nesaf. Ar ôl ennill degau o gystadlaethau, aeth ymlaen i gystadlu yn Nhreialon Cenedlaethol Cymru yn Hwlfordd ym mis Awst. Cystadlodd gyda dau gi yno, Clwyd Bob a Jock, ac fe lwyddodd Jock a Dewi gipio'r 5ed safle gyda'i gilydd, gan ennill lle yn y tîm cenedlaethol i wynebu timoedd yr Alban, Iwerddon a Lloegr ym mhinacl tymor y treialon, y Treialon Rhyngwladol.

Ewch i dudalen 12

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560

Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezzer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

GOLYGYDDION

Golygwyd y rhifyn hwn gan
Mair, Betsan a Beryl gyda
Iolo'n dylunio.

Diolch iddynt.

Helen (helen.iwan@btinternet.com) a Ceri (stiwedio@ceri-talybont.com) fydd yn golygu
rhifyn Tachwedd.

Y dyddiad cau yw 4 Tachwedd
a bydd y papur ar werth ar 11
Tachwedd.

Gohebiaeth

Annwyl Gyfeillion,

Wrth ddiolch am y dymuniadau da a ges i ac eraill yn Papur Pawb y
mis diwethaf ar yr ymddeoliad, hoffwn i dynnu sylw at y ffaith bod
fy mhartner yn y busnes – a'm gwraig – Siân Saunders, hefyd wedi
ymddeol. Bu'n bartner yn Afiath am 14 blynedd a hebddi ni fuasai
cystal graen ar gynnyrch y cwmni.

Dymunaf ymddeoliad yr un mor "hir a haeddiannol" i hithau!

Cofion gorau

Martin,

Is-y-coed, Tre Taliesin.

SÔS COCH
SINEMA

23.10.22 @ 17.30

Cletwr

Yn dangos:

Nifer o ffilmiau byr a wnaed
gan wneuthurwr ffilmiau lleol,
wedyn dangosiad o
The Toll (2020) Rating 15

Tocynnau wrth y drws £5
Consesiwn safonol £3

Pryd?

Dydd Sul, Hydref 23

Apêl Sir Nawdd

CAFC Ceredigion 2024

Noson Bingo a
Chystadleuaeth Pwmpen
wedi'i cherfio

Nos Wener - 28/10/2022
am 7:30yh
Neuadd Llanfarian

Croeso cynnes i bawb

FFERYLLFA TAL-Y-BONT

Galwch mewn unrhyw bryd
am eich pigiad FFLIW

ac

o'r 25 Hydref, ar ddydd
Mawrth, Mercher neu Iau,
am eich pigiad COFID

Byw y tu allan i
ddalgylch Papur Pawb?

Dyma'r siopau sy'n
gwerthu Papur Pawb y tu
allan i ddalgylch y papur:

Siop Inc a Siop y Pethe,
Aberystwyth
Y Swyddfa Bost, Penrhyn-coch
Siop Spar, Bow Street
a Mr News, Machynlleth

Mynnwch gopi o'r rhifyn
diweddaraf am 50c yn
unig.



Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304



DYDDIADUR

Cofiwch atfon manylion am
weithgareddau eich mudiad
neu'ch sefydliad at Carys
Briddon,
carysbriddon@btinternet.com
01970 832478
o leiaf ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o'r papur.

HYDREF

- 15 'Dal ati' 10.30 Cletwr
16 Bethel 10 Uno â Chyrrddau
Mawr Seion (Dyfrig Rees)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
17 Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch 'O dan fy nhraed'
(Llinos Dafis) 7.30 Ystafell
waelod y Neuadd Goffa
22 'Taith trwy'r coed' Cletwr
23 Bethel 2 Oedfa Deulu (Gwilym
Tudur)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Sôs Coch Sinema 5.30 Cletwr
28 Noson Bingo a Chystadleuaeth
Pwmpen 7.30 Neuadd Llanfarian
30 Bethel 10 Uno â Seion (Andrew
Lenny)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

TACHWEDD

- 1 Sefydliad y Merched Taliesin
'Choirs for Good', 7.30
Llanfach. Croeso i bawb.
5 'Dal ati' 10.30 Cletwr
6 Bethel 10 Uno â Seion (Zoom)
Rehoboth 5 Gweinidog
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30
Cymun Bendigaid
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
8 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Merched Enwog
Cymru' (Medi Jones Jackson)
13 Bethel 10 Richard Lewis
10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Sul y Cofio
26 Ffair Nadolig Neuadd Goffa
Tal-y-bont

Cletwr Dydd Mawrth 1-4
'Clonc a Gweu'

Ar gyfer eich Dyddiadur

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

FFAIR NADOLIG

Sadwrn 26 Tachwedd 2022

2.00 y prynhawn

Dewch i gymdeithasu a
chefnogi mudiadau lleol

(Croeso i stondinau masnachol:
Cysyllter â Ieuan Morgan 832496)

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau mawr i Catrin Eleri Jones o Fachynlleth a Gwyn Lloyd Jones, Pensarn, Tal-y-bont a briododd ar y 1af o Orffennaf yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert, Aberteifi. Maent wedi ymgartrefu yn Gerynant, Tal-y-bont.



Llongyfarchiadau mawr i Gwydion Jones, Gellimanwydd, Talybont a Hannah Sams, Pantyffynnon, Penrhiwgoch ar briodi ar y 24 Medi yng Nghapel y Trinity, Sgeti. Cafwyd diwrnod da o ddathlu a digon o ddawnsio!

Pen-blwyddi hapus
Pen-blwydd hapus iawn i Freya Young, Hirsitalo, Bont-goch a ddathlodd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Hefyd bu dathlu dwbl yn Penygro, Bontgoch wrth i Helena O Sullivan ac Oisín Lludd ddathlu pen-blwyddi arbennig. Llongyfarchiadau!

Dathlu pen-blwyddi priodas
Llongyfarchiadau i Janet a John Morgan, Moelgoch, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas Ddeiamwnt yn ystod mis Medi ac i Dafydd ac Ellyw, Tanrallt, Tal-y-bont a ddathlodd eu priodas arian ar y 27ain o Fedi.

Babis Newydd
Pob dymuniad da i Hannah ac Urien, Emporiwm, Tal-y-bont, ar enedigaeth Llŷr, brawd bach i Hazel.

Llongyfarchiadau i Anwen a Geraint, Bwlchgwynt, Trawscoed ar enedigaeth eu merch, Jini John James ar 8 Hydref, chwaer fach i Sianco, wyres i Enoc a Margaret Jenkins, Penbryn a gor-wyres i Gwilym ac Ann, Llety'r Bugail.

Dymuniadau gorau
Dymuniadau gorau i Eurwen Jones, Isallt, Tal-y-bont (mam Arvid Parry-Jones) sydd wedi symud i gartref Allt y Mynydd yn Llanybydder.

Swydd newydd
Ar ol cwblhau MA mewn Cyhoeddi i Blant ym Mhrifysgol Caerfaddon mae Elen Jones, Llŷs y Bryn, Tre'r Ddôl newydd symud i Lundain lle bydd hi'n dechrau ar ei swydd fel Dylunydd Cynorthwyol i gwmni cyhoeddi Andersen Press sydd dan ymbarel Penguin Random House. Pob dymuniad da iddi.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Bethan Davies, Dôllelltwr, Tre'r ddôl ar golli ei modryb oedd yn byw yng Nghasnewydd.

Cydymdeimlwn hefyd â Sue a Wil Hopkins, Dyffryn a'r teulu i gyd, ar golli mam Sue, sef Ann Isaac, gynt o Nythfa, Tal-y-bont a oedd yn byw yn Nghartref Plas Gwyn, Llanon.

Yn yr ysbyty
Mae Mai Leeding, Glannant, Taliesin yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Gobeithio na fydd yn rhy hir nes iddi wella digon i ddod adre unwaith eto.

Bu Margaret (Myrtle) Williams, Maesmwyn, Penlôn, Tal-y-bont yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar ac yn awr yn Ysbyty Tregaron. Gobeithiwn eich gweld adre'n fuan.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i John Hughes, Ffatri Leri, Tal-y-bont a dderbyniodd driniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar yn dilyn syrthio yn ei gartref a thorri ei glun.

LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth

Hefyd ar gael yn siopau lleol.

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf, Talybont

OUT OF OFFICE STUDIO

ADEILADAU NEWYDD | ESTYNIADAU | TRAWSNEWIDAU | DATBLYGU TIR

CYFEIRIAD
Out Of Office Studio LLP
4 Cambrian Terrace
SY20 8TR

FFON
+ 44 7984399315

AR-LEIN
office@o-o-studio.com
www.outofofficestudio.co.uk



Ffair Busnesau Bychain

Cynhaliwyd digwyddiad cyffrous iawn yn y Neuadd Goffa ar ddechrau mis Hydref. Ar y cyd gyda Chwmni Cydweithredol Teg cynhaliwyd Ffair Busnesau Bychain, lle rhoddwyd cyfle i fusnesau lleol werthu eu cynnyrch. Roedd awyrgylch arbennig yn y Neuadd a phawb yn falch o'r cyfle i gymdeithasu a rhyngweithio eto. Cafwyd amrywiaeth eang o stondinau gan gynnwys Nwyddau Noni, Casey Hubbard Beauty & Aesthetics, Cig Moch Tynygors, Mêl Lleol Teulu Ovens, Llaeth Teulu Jenkins, amrywiol stondinau gan Cwmni Cydweithredol Teg, Dillad Ceirios, Jules Haddon Reflexology, Hannah Doyle Printmaker ac roedd disgyblion yr ysgol wedi trefnu stondinau i werthu nwyddau ac addurniadau Calan Gaeaf a Nadolig a chriw wedi bod wrthi ers diwrnodau yn paratoi cacennau a danteithion blasus. Diolch o galon i bawb am gefnogi ac i aelodau Merched y Wawr Tal-y-bont am weini'r lluniaeth. Codwyd dros £100 i'r Gymdeithas Rien i dros £70 i Apêl Wcrain. Gwych!



Dewiniaid Digidol

Rydym yn ffodus iawn ein bod wedi llwyddo i barhau gyda'r gweithgareddau digidol yn ystod y mis. Diolch yn fawr i Rowan, Hari a Martha am drefnu gweithgareddau diddorol i weddill dosbarth Blwyddyn 6. I ddechrau cafwyd gweithgaredd i ddysgu gweddill y dosbarth sut i greu gêm i blant y Cyfnod Sylfaen, gan ddefnyddio codio ar Scratch, ac i ddechrau ein thema o astudio'r diwydiant mwyngloddio yn ardal Tal-y-bont rhoddwyd her i'r dosbarth greu byd dan ddaear gan ddefnyddio *Minecraft* – gwaith arbennig!

Barddoni

Ar ddechrau mis Hydref aeth Blwyddyn 6 i'r Drwm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gael gweithdy gyda Casi Wyn, Bardd Plant Cymru. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y plant yn cael eu hysbrydoli i greu eu barddoniaeth eu hunain ar ôl cael y cyflwyniad. Pwy a ŵyr, efallai y bydd hyn yn arwain at gadeirio un ohonynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol cyn hir! Diolch i Lenyddiaeth Cymru am drefnu'r digwyddiad.

Ysgol



Diwrnod Owain Glyndŵr

Mae'r adeg yma o'r flwyddyn wastad yn gyfle da i'n hatgoffa o gysylltiad Owain Glyndŵr gyda'r ardal ac roedd y plant yn cofio'r ffeithiau'n arbennig o dda. Da iawn chi blant am gofio cymaint o ffeithiau am Dywysog Cymru - cipio Castell Aberystwyth - Brwydr Mynydd Hyddgen – sefydlu Senedd i Gymru ym Machynlleth.



Cydweithio

Mae plant Blwyddyn 6 wedi bod yn cynnal llawer o weithgareddau i groesawu'r plant newydd i'r ysgol yn ystod y mis a'u gwneud i deimlo'n gartrefol gyda ni. Diolch yn fawr am fynd i chwarae gyda'r plant ac am gynnal gweithgareddau darllen hefyd.



Tomos yn cael hyfforddiant gan Casi Wyn Bardd Plant Cymru

Tal-y-bont



Gwibdeithiau

Yn anffodus bu'n rhaid gohirio gwibdeithiau diwedd tymor yr haf oherwydd bod Covid yn dal i adael ei ôl arnom. Ond, diolch i Mrs Claire Jones, llwyddwyd i ad-drefnu'r tripiâu ac roedd hi'n ddechrau gwyh i'r flwyddyn. Aeth y plant lleiaf i ardal chwarae *Moody Calf* ger Synod Inn a'r plant hynaf i *Fferm Ffoli*. Diolch yn fawr i haelioni'r Gymdeithas Rieny wrth gyfrannu at y costau.



Cerddoriaeth

Cafodd Blwyddyn 2 a 3 gyfle arbennig i gydweithio gyda'r gantores a'r gyfansoddwraig Hana Lili yn ddiweddar. Roedd pawb wrth eu boddau'n dysgu sut i recordio sain ac yna defnyddio rhaglenni cyfrifiaduron i gymysgu'r synau i greu sŵn gwahanol! Bydd y gwaith yn cael ei ddefnyddio i gyd-fynd gyda gwaith celf yn y dyfodol ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y gwaith gorffenedig.

Ysgol Pen Barras

Cafodd Plant Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 gyfle arbennig i gwrdd a siarad gyda phlant Ysgol Pen Barras, Rhuthun a hynny dros *TEAMS*. Rydym wedi dod i arfer gyda defnyddio'r dechnoleg dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae creu cysylltiadau gydag ysgolion eraill ar draws Cymru a'r byd wedi dod yn haws. Da iawn chi blant am ofyn ac ateb yr holl gwestiynau. Gobeithio y bydd hyn yn gallu digwydd yn aml, diolch i Miss Roberts am drefnu.

Staffio

Hoffwn estyn croeso cynnes i Miss Begw Roberts atom i ddysgu'r plant yn y cyfnod sylfaen. Mae wedi llwyddo i drefnu gweithgareddau diddorol yn barod ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda hi yn ystod y flwyddyn.



Sioe Sbridiri

Mae'r plant lleiaf wrth eu boddau'n cael mynd ar drip! Y tro yma aethant i Ysgol Penweddig i weld sioe hwyliog a chyffrous gan griw Sbridiri. Mae'n amlwg o'r lluniau eu bod wedi cael amser gwyh. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu.



Siaradwyr Cymraeg

Llongyfarchiadau mawr i'r criw yma am eu hymdrech i siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau yn yr ysgol. Da iawn chi blant.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Anrheg o darian

Cafodd Ellen ap Gwynn, y cyn Gyngorydd Sir, ei anrhegu efo tarian yn dangos arfbais Cyngor Sir Ceredigion. Cynhaliwyd seremoni ym mhabell y Cyngor Sir yn ystod yr Eisteddfod i ddiolch i aelodau o'r Cyngor oedd yn sefyll i lawr. Derbyniodd Ellen y darian i gydnabod ei gwasanaeth hir a'i chyfraniad gwerthfawr i Lywodraeth Leol dros gyfnod o 23 mlynedd ac yn arbennig am ei chyfnod yn Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion am y 10 mlynedd o 2012 hyd 2022.



Hoffai Ellen ddiolch i ddarllenwyr Papur Pawb a phawb yn ward Ceulanamaesmawr am eu cefnogaeth cyson iddi dros y blynyddoedd ers 1999.

TEYRNGED

Gwyndaf Evans

Ar Fedi 27ain daeth y newydd trist am golli un o gymeriadau mwyaf hoffus Maes-y-Deri, Tal-y-bont. Bu farw Trefor Gwyndaf Evans yn dawel yn ei gartref ar ôl cyfnod hir o salwch.



Fe'i ganwyd ym mis Ebrill, 1938 yn Nerwenlas yn un o deulu o ddeg o blant. Mynychodd Ysgol Uwchradd Machynlleth ac yn ddwy ar bymtheg oed ymunodd â'r Llynges Brydeinig. Bu'n gwasanaethu yn y Llynges am ddeuddeg mlynedd gan deithio'r byd gan gynnwys bod yn rhan o'r anghydfod yn Suez. Yn ystod y cyfnod bu'n chwarae pêl droed i dîm y Llynges.

Cyfarfu â Jan yn ddeunaw oed a phriododd y ddau bum mlynedd yn ddiweddarach a magu teulu o bedair o ferched Julie, Karen, Kay a Rhian. Roedd hefyd yn daid i dri o wyrion ac yn hen daid i saith.

Roedd Gwyndaf wrth ei fodd yn treulio amser ar y brynau o gwmpas Tal-y-bont a threuliodd gyfnod yn casglu mwswg' yn yr unigeddau a hynny allan ym mhob tywydd. Cofir amdano fel pêl droediwr dawnus a bu'n chwarae i dimoedd Penrhyn-coch, Aberystwyth a Phonrhydfendigaid yn eu tro. Roedd yn bysgotwr o fri hefyd a'r pinael oedd cael cynrychioli Cymru yn y tîm pysgota plu. Dyn teulu a'i filltir sgwâr oedd Gwyndaf a choffa da amdano.

Dymuna Jan, y merched a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant i bawb am y caredigrwydd, y blodau a'r llu cardiau a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth.

Claddu llwch

Ar brynhawn dydd Iau, Hydref 6ed cynhaliwyd gwasanaeth byr ym mynwent Tal-y-bont, dan arweiniad y Parch. Richard Lewis, i gladdu llwch y diweddar Rosina Jones. Roedd Rosina yn weddw i'r diweddar J. R. Jones (John Werndeg, Tal-y-bont) a threuliodd ei blynyddoedd olaf yn byw yn Llandudno. Bu farw yn ei chartref ar Fai 10fed yn 90 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau i gyd yn ardal 'Papur Pawb'.

Colofn Ben Lake

Er bod nifer o bethau i godi calon ar hyn o bryd – cymdeithas yn ailgydio wedi Covid, digwyddiadau lleol yn fwrlwm yn ein cymdogaethau unwaith eto, ymddangosiad tîm pêl-droed Cymru yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958 – mae'r argyfwng costau byw presennol yn taflu ei gysgod dros gymdeithas gyfan ar hyn o bryd.



Yn anffodus, mae effaith y cynnydd mewn biliau ynni a thanwydd yn cael effaith aruthrol ledled Cymru ac yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Mae adroddiadau'n awgrymu y gallai cymaint â 45% o aelwydydd Cymru fod mewn tloedi tanwydd y gaeaf hwn yn dilyn y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni.

Ymhellach at hyn, mae tua 74% o gartrefi Ceredigion heb eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy, ac o ganlyniad mae bron i 40% yn dibynnu ar olew i wresogi eu cartrefi. Ar gyfartaledd, maent wedi gweld cynnydd o 150% yng nghost eu archebion olew gan nad ydynt wedi'u diogelu gan y cap ar brisiau ynni.

Mae prisiau tanwydd uwch hefyd yn bygwth yr economi wledig. Anghofiwn weithiau fod prisiau cynyddol petrol a disel yn cael effaith ddifrifol ar wasanaethau cyhoeddus. Pan fydd y prisiau hynny'n cynyddu, daw'n anos cynnal llwybrau bysiau gwledig a gwasanaethau trafnidiaeth ysgol. Yn fwy pryderus efallai, mae gweithwyr hollbwysig, fel gofalwyr cymdeithasol, yn ei chael hi'n anodd fforddio gweithio. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi dadlau yn y Senedd y byddai modd cael rhywfaint o ryddhad tymor byr i'r sefyllfa enbyd hwn trwy'r cynllun rhyddhad treth ar danwydd gwledig, trwy ymestyn y cynllun (sydd eisoes mewn grym mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr a'r Alban) i Gymru.

Fel cadeirydd y grŵp seneddol trawsbleidiol ar dlodi tanwydd, rwyf hefyd wedi bod yn annog Llywodraeth San Steffan i ystyried cynigion 'National Energy Action' ar gyflwyno tariff cymdeithasol newydd i helpu'r cwsmeriaid mwyaf bregus. Dylai cynllun o'r fath fynd law yn llaw ag ymdrechion i hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes yn bodoli megis y Gronfa Cymorth Dewisol (Discretionary Assistance Fund) a'r taliad tanwydd gaeaf i bob aelwyd incwm isel. Byddai hyn oll yn mynd i'r afael â'r pwysau tymor byr sy'n deillio o brisiau ynni uwch.

Ateb tymor hir fyddai cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi. Yn benodol, dylai Llywodraeth San Steffan gyflwyno deddfwriaeth ECO4 (y rhwymedigaeth cwmni ynni) yn ddi-oed i sicrhau bod mesurau inswleiddio'n cael eu gosod ar gyfer y cartrefi tlotaf cyn gynted â phosibl.

Yn syml iawn, mae teuluoedd a chartrefi ar draws Ceredigion angen i Llywodraeth San Steffan wneud mwy i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw presennol – yn y tymor byr a'r tymor hir.

CANOLFAN
M.O.T.
HUW
LEWIS
M.O.T.
CENTRE

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

6

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Croesawyd yr aelodau gan Eiriona Metcalfe i festri capel Rehoboth, Tre Taliesin, ar brynhawn dydd Mawrth, 13 Medi, ar gychwyn tymor newydd o'r Gymdeithas. Ein gŵr gwadd am y prynhawn oedd Rees Thomas, Bow Street, a ddaeth gyda'i wraig, Mary, i sôn am y Gadair hardd a gynlluniodd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion eleni. Ac yntau'n gyn-athro gwaith coed yn Ysgol Gyfun Penweddig, dywedodd iddo gael ei ysbrydoli gan y patrwm a greodd yr afon Teifi wrth lifo drwy'r sir ar gyfer braich y Gadair. Yn ogystal â'r Nod Cyfrin, mae delwedd o'r barcud coch sy'n seiliedig ar baentiad gan Wynne Melville Jones, a hefyd enw Ceredigion yn null Coelbren y Beirdd, ar gefn y Gadair. Gwelir enwau siroedd Cymru wedi eu cerfio yn y dull hanesyddol yma ar feini Cylch yr Orsedd yng Nghastell Aberystwyth. Mae'r Gadair ei hun wedi ei gwneud o bren derw, ond ar gyfer y dyluniad ar y cefn defnyddiwyd pren derw'r gors a gafwyd o Gors Fochno, a dywedir fod y Gors a'r pren hwnnw yn dyddio'n ôl o leiaf bedair mil o flynyddoedd. Wrth lunio'r Gadair roedd Mr Thomas am greu darn o ddodrefn gwahanol a fyddai'n addas i'r cartref, ac mae'n amlwg iddo lwyddo i wneud hynny gan fod canmol mawr wedi bod ar ei waith. Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn diddorol iawn, a mwynhawyd paned o de a sgwrs ar y diwedd. Eiriona a Carys oedd yng ngofal y te, a diolch i'r aelodau eraill am eu help wrth ei weini.



Rees Thomas

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Diweddariad gan Broadway

Diolch eto i bawb sydd wedi cofrestru eu diddordeb ym Mhrosiect Band Eang Cymunedol Ceulanamaesmawr.
Newyddion da iawn yw fod y cais wedi'i gymeradwyo gan DCMS (yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon).
Maent bellach yn integreiddio Ceulanamaesmawr, Melindwr, Pontarfynach, Blaenrheidol ac Ysgubor y Coed i'w rhaglen adeiladu a byddant yn dechrau cynllunio arolygon o'r seilwaith yn yr ardal.
Byddant yn archwilio pob un o'r 4,099 o bolion telegraff a dros 40 milltir o bibellau tanddaearol *Openreach* ac yn nodi safle ar gyfer ein cabinet (cyfnewidfa fach).
Bydd diweddariad pryd y bydd yr arolygon yn dechrau.

Ian ceulanband@gmail.com
<https://www.facebook.com/FfeibrCeulanamaesmawrFibre> <https://sites.google.com/view/ffeibrceulanamaesmawrfibre>

Ffrydwyr, chwaraewyr gemau & a gweithwyr caled o adref

I gael cyswllt di-rwystr,
beth am gael band-eang
ffeibr gwibgyswllt yng
Ngheredigion heddiw!

Hyd at
1Gbps o £19.99*
COFRESTRWCH HEDDIW MAE'N RHAD AC AM
DDIM A DOES DIM RHWYMEDIGAETH

broadwaybroadband.co.uk

ADOLYGIADAU
★★★★★
★ RHAGOROL

Carbon
Neutral
Britain

“Wnaethon ni erioed
feddwl y bydden
ni'n cael ceblau
ffeibr yma i ddweud
y gwir.
Mae wedi bod o fudd i'r teulu
cyfan. Dyma'r dibynadwydd
yr oedden ni ei angen.”

Anne James
Ambleton, Pembrokeshire

*Mae T&A yn berthnasol, gweler y wefan am fanylion llawn. Cyflymder cyfartalog hyd at 900Mbps gyda pheicyn 1Gbps. Pris fesul mis calendr am gontact 12 mis. Cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yw Broadway Partners Ltd (yn masnachu fel Broadway Broadband), ei rhif cwmni yw 07702073, ac mae ei swyddfa gofrestredig yn Tempest Building, Tithebarn Street, Lerpwl L2 2DT

O Bontgoch i Wlad Belg

Gan fod Caoimhe yn astudio'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ei gwersi hanes yn yr ysgol, fe wnaethom benderfynu trefnu taith i Ypres (neu Ieper) yng Ngwlad Belg. Roedd hynny dair blynedd yn ôl! Felly tair blynedd, a phandemig byd-eang yn ddiweddarach, fe ddaeth y daith i ffrwyth, er bu bron i ni orfod ei gohirio eto wedi i mi gael damwain beic chwe wythnos cyn i ni gychwyn!

Mae bedd Hedd Wyn yn gyrchfan hanfodol i Gymry Cymraeg sy'n ymweld â'r ardal, felly roedd rhaid i ni fynd yno wrth gwrs. Ond wrth i ni rannu ein hanes drwy *WhatsApp* gyda theulu a ffrindiau gartref yng Nghymru, daeth yn amlwg bod cysylltiadau mwy agos i ni i'w cael yno hefyd. Rhyw filltir i ffwrd o fedd Hedd Wyn mae perthynas agos i fy Nain wedi ei gladdu. Cafodd Arthur Edwards Tyddyn'tonnen, Llanuwchllyn ei ladd ar y 18^{fed} Chwefror 1917 a'i gladdu ym mynwent *Bard Cottage* rhyw 3 cilometr a hanner o ganol Ypres. Cawsom ein hatgoffa hefyd bod dau o fechgyn Bontgoch yn gorwedd yn ardal y Somme, felly fe aethom i chwilio amdanynt.

Cafodd Dewi Mason, a anwyd yn Y Winllan, Cwm Tŷ-nant ei ladd ar yr 11^{eg} o Orffennaf 1916 ym mrwydr enwog Coedwig Mametz. Mae cofeb i filwyr y Ffisilwyr Cymreig – draig goch yn cydio mewn darnau o weiren bigog – ar fryncyn sy'n wynebu'r goedwig, sy'n dal i sefyll yno heddiw, yr ochr arall i geunant llydan. Roedd yr haul yn tywynnu ac roedd hi'n anodd dychmygu'r gyflafan oedd yno ychydig dros 106 o flynyddoedd yn ôl ble lladdwyd bron i 600 o Gymry, a chollwyd 600 arall na gafodd eu darganfod nac eu hadnabod o gwbl wedi'r frwydr. Rhwng y 7^{fed} a'r



12^{fed} o Orffennaf 1916 dioddefodd y Ffisilwyr Cymreig golledion o dros 4000 o wŷr i gyd, gan gynnwys y rhai gafodd eu hanafu – pedwar allan o bob pump ohonynt.

Cafodd corff Dewi Mason byth ei adnabod. Mae'n bosib ei fod yn dal i orwedd yn y coed, neu – yn fwy tebygol – yn gorwedd yn un o'r mynwentydd militaraid cyfagos mewn bedd wedi ei farcio'n unig â'r geiriau '*A Soldier of the Great War – Known Unto God*'. Mae ei enw yn ymddangos ar gofeb Thiepval, rai milltiroedd o Mametz, sy'n cynnwys dros 72,000 o enwau milwyr a gollwyd ond wnaeth erioed gael eu hanabod yn ardal y Somme. Dim ond wrth sefyll yno yn gweld yr ysgrif syml 'Mason, D' ynghanol y degau ar ddegau o filoedd o enwau eraill ar y gofeb enfawr yma gallwch chi amgyffred graddfa'r colledion.

Ym mynwent *Caterpillar Valley*, rai milltiroedd yn unig o Mametz mae un arall o fechgyn Bontgoch yn gorwedd. Collodd Arthur Morris, Elerch House, Bontgoch ei fywyd ar y 26^{ain} Awst 1918 yn 26 oed. 'Dyw mynwent *Caterpillar Valley* (a enwyd gan y Fyddin Brydeinig ar ôl siâp y cwm cyfagos) yn ddim ond un o fil o fynwentydd y Rhyfel Byd Cyntaf sydd yn Ffrainc, ond mae hi'n anferth. Mae rhesi ar resi yno o feddau heb enw, ac roedd cerdded drwyddi yn sylwi ar arysgrif yn y Gymraeg ar garreg fedd bob hyn a hyn yn atgoffa rhywun faint o aberth wnaeth Cymry Cymraeg i'r Rhyfel Mawr.

Wedi dychwelyd i'r tŷ yn Ypres a chlywed adroddiad arall o'r Weraïr ar wasanaeth Newyddion y Byd y BBC, cefais fy atgoffa am bennill olaf cân Myrddin ap Dafydd, 'Gwaed ar eu Dwylo', addasiad o'r gân Wyddelig '*Green Fields of France*':

O slymiau tre Glasgow i Gymry cefn gwlad
Mae hogyn diniwed yn cyrchu y gad
I farw, neu yntau i ladd ei gyd-ddyn
Yn enw rhyw ryddid na wŷr o ei hun.
Rwyt ti, Tomos Wiliam, [Arthur Edwards, Dewi Mason ac Arthur Morris], dros ddim yn y byd
Yn disgyn yn sglyfaeth mewn ffosydd o hyd.

Siôn Pennant.

Llwyddiant ar gneifio gwellau

Mae'r tymor cneifio bellach wedi dod i ben am flwyddyn arall, ond un sydd wedi bod yn cystadlu yn y sioeau yn ystod y tymor ac wedi cael hwyl arni ydy Rhydian Evans, Tynant.

Gyda Phencampwriaeth Cneifio'r Byd yn cael ei chynnal y flwyddyn nesaf yn Sioe Frenhinol yr Ucheldir yn yr Alban roedd pawb eisiau'r cyfle i gynrychioli eu gwlad a chael eu dewis yn aelod o'r tîm.

Dechreuodd y cystadlu ar ddechrau Mis Mehefin yn Sioe Sir Stafford a daeth y cystadlu i ben yn Cneifio Corwen ddiwedd Mis Gorffennaf. Bu'n cystadlu mewn wyth sioe ar hyd a lled Cymru a Lloegr ac ar ddiwedd y cystadlaethau enillodd y drydydd safle yng Nghylchdaith Cneifio Gwellau Masnachol Cymru. Y ddau berson ddaeth i'r brig ac a fydd yn cynrychioli Cymru yn adran y gwellau fydd Elfed Jackson a Gareth Owen.

Uchafbwynt y cystadlu eleni i Rhydian oedd yn Sioe Llysfasi, lle enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth cneifio gwellau masnachol agored a chael y cyfle i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth y Tîm gyda Robin Jones gan gipio'r wobr gyntaf yn erbyn Lloegr.

Bu hefyd yn cystadlu yn y gystadleuaeth cneifio gwellau yn Sioe Talybont, lle enillodd y wobr gyntaf. Ym Mis Medi aeth i lawr i dwrnament cneifio gwellau Fernhill, Gwlad yr Haf lle cipiodd y wobr gyntaf yn erbyn cystadluewyr o Loegr, Cymru a'r Iseldiroedd. Mae Rhydian yn awr yn edrych ymlaen at fynd i Sioe Frenhinol yr Ucheldir ym Mis Mehefin i gefnogi holl aelodau Tîm Cymru. Pob lwc iddynt.



CLWB IEUENCTID TAL-Y-BONT



Mae Clwb Ieuenctid Tal-y-bont wedi ail-gychwyn ar ôl bod ar gau am dros ddwy flynedd oherwydd Covid-19. Cynhaliwyd y sesiwn cyntaf ar yr 2il o Fedi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Mae'r Clwb Ieuenctid yn agored i bobl ifanc rhwng 11-18 oed, ac yn rhedeg bob nos Wener yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 6.30yh a 8.30yh. Erbyn diwedd mis Medi, roedd tua 35 o bobl ifanc yn mynychu bob wythnos.

Os oes gennych ddiddordeb gwirfoddoli, gwneud cyfraniad neu eisiau cefnogi'r clwb mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â Lowri ar 07730667126, neu danfonwch neges i dudalen *Facebook* y Clwb sef, Clwb Ieuenctid Talybont Youth Club.

Yn NATURiol

Yn yr ail yn y gyfres hon, mae Lisa Tomos yn adrodd am ei diddordeb mewn fforio (foraging).

AFALAU SURION, Y SILK ROAD A'R BOCHDEW

Tymor prysur iawn i ni fforwyr yw'r hydref. Mae toreth eleni o gnau cyll, mwyar duon a madarch ond un goeden fechan sydd gen i dan sylw heddiw. Mae ganddi ddigon i gynnig er ei maint ac mae ei henw Lladin yn golygu afal y goedwig.

Mae'n hawdd sylwi ar ein coed afalau surion neu crabas (*Malus sylvestris*) yn ystod yr hydref pan maent yn gollwng eu ffrwythau dros y llawr. Er nad oes nifer fawr o'r coed yn ein cylch ni, eleni maent yn drwm eu ffrwythau ac yn ddilêit i ni fforwyr. Mae'r ffrwythau'n llawn fitamin C ac A a dywedir y gallent helpu lleihau pwysau gwaed. Gan eu bod yn llawn o bectin maent yn ddelfrydol i ychwanegu at rysâit jam. Bydd llawer ohonoch chi'n gyfarwydd â gwneud Jeli Crabas sydd efo blas a lliw arbennig iawn, ac yn wych efo porc neu ar dost.

Beth am drio rostio'r afalau efo cig neu eu hychwanegu at tsytyni cartref? Neu dilynwch y rysâit isod am Liqueur Crabas gall helpu eich cynhesu chi trwy gaeaf oer er gwaethaf ymdrechion Mr Putin!

LIQUEUR CRABAS

30 i 40 afal sur (wedi ei golchi a'u haneru)

1 litr jin neu fodca

200g siwgr mân

Dull

Llenwch jar mawr yn dri chwarter llawn efo'r afalau surion a taenwch y siwgr drostynt ac wedyn y jin neu fodca. Caewch y caead yn dynn a'i gadw am fis neu ddau. Trowch y gymysgedd bob dydd am yr wythnos gyntaf ac wedyn yn achlysurol.

Hidlwch y liqueur a'i ddidoli mewn potel. Cadwch am fis arall. Mwynhewch!

Crëwyd yr afal bwyta modern yn rhannol o'r afal sur Ewropeaidd. Yn hanesyddol mae croesi wedi digwydd rhwng afalau gwyllt o'r dwyrain a credir mai trwy masnach ar hyd y *Silk Road* digwyddodd hyn o leiaf 1,500 mlynedd yn ôl.

Mae hen hanes o ddefnyddio afalau surion gan gynnwys eu bwydo i'r moch. Yng ngwlad Norwy cafwyd hyd i long Llychlynwyr yn dyddio o 820AD wedi ei pharatoi i hwylio gyda nid yn unig moch arni ond hefyd afalau surion wedi'i haneru mewn bwced yn barod i fwydo'r anifeiliaid.

Yn y caeau, mae gwartheg a cheffylau yn hoffi bwyta afalau surion hefyd. Mae hyn yn helpu i wasgaru'r hadau ac atgynhyrchu coed ifanc yn enwedig mewn mannau lle mae pori ysgafn sy'n helpu'r coed i sefydlu.

Mae'r afal sur yn bwysig iawn i beillwyr gan ei fod yn gwisgo toreth o flodau pinc golau yn y gwanwyn. Dyma wledd i bryfetach, yn enwedig y rhai sydd wedi gaeafysgu ac angen bwyd. Yn ôl elusen *Buglife* mae pryfaid hedfan wedi gostwng 55% dros yr 17 mlynedd diwethaf yng Nghymru ac felly mae angen gwarchod ein coed afalau surion, a lle mae cyfle plannu mwy.

A beth am y bochdew anwes? Efallai y gwyddoch chi eu bod yn hoffi cnoi ar frigau mân er lles eu dannedd ond dim ond rhai mathau o goed sy'n addas iddynt....ac mae teulu'r afal yn un ohonynt. Felly gallwch chi fforio ar gyfer y bochdew hefyd! Pob hwyl wrth chwilota, fforio a mwynhau'r cynnyrch!

Lisa Tomos

Mêl Wainwright's

Mae'n siŵr bod y mwyafrif ohonoch wedi sylwi ar y siediau ar ddechrau Lôn Glanfred wrth deithio i'r pentref, ond oeddech chi'n gwybod mai Fferm Wenyn Waingwright's sydd wedi'i lleoli yno?

Sefydlwyd y cwmni yn 1974 pan gafodd David Wainwright ei gwch gwenyn cyntaf. Ers hynny, mae'r gwenyn wedi tyfu i 750 o nythfeydd mewn nifer o wenfeydd ar draws Cymru a Lloegr, gan gynhyrchu sawl math gwahanol o fêl. Mae 70 miliwn o wenyn dan ofal y cwmni, felly nid yw'n syndod mai dyma un o'r cwmnïau mêl mwyaf adnabyddus ar draws Prydain a thu hwnt.

Yn 1983, aeth David i Zambia i wirfoddoli â gwenynwyr rhisgl traddodiadol yng nghoedwigoedd Talaith y Gogledd Orllewin. Pan ddychwelodd i Brydain yn 1989, sefydlodd *Tropical Forest Products*, sef y cwmni cyntaf i fewnforio mêl organig a chwyrr gwenyn o Affrica, rhywbeth maent yn parhau i wneud hyd heddiw, i gefnogi bywoliaeth gwenynwyr a theluloedd lleol a sicrhau amddiffyniad parhaus y coedwigoedd yno. Mae'r mêl ei hun yn flasus iawn wrth gwrs; mae ganddo flas cyfoethog sy'n wahanol i'r mêl blodeuog a geir yma oherwydd y neithdar arbennig a gynhyrchir gan yr amrywiol rywogaethau o goed a geir yng nghoedwigoedd Affrica.

Cynhyrcha'r cwmni sawl math gwahanol o fêl yng Nghymru hefyd, gan gynnwys mêl haf o fwyar duon a helyglys a mêl grug o'r mynyddoedd. Mae gwahanol liwiau, gweadau a blasau'r mêl oll yn dibynnu ar ble mae'r gwenyn wedi fforio, e.e. bydd rhai sydd wedi fforio dant y llew yn creu mêl melyn llachar gyda blas cyfoethocach na rhai sydd wedi fforio leimwydd sy'n creu mêl cynnes a throfannol.

Mae'r cwmni wedi bod yn cydweithio ag archfarchnad *Marks & Spencer* ers sawl blwyddyn bellach, ac eleni byddant yn cynhyrchu tri math newydd o fêl iddynt, gan gynnwys y '*Welsh Border Honey*' a ddaw yn bennaf o wenyn sydd wedi fforio meillion, a'r '*Crunchy Welsh Heather Honey*' o wenyn sydd wedi fforio grug ar fynyddoedd Gogledd Cymru, sef un o ffefrynau Mr Wainwright ac un mae'n falch iawn ohono. Eglurodd bod ei lwyddiant yn ganlyniad i ddarn allweddol o wybodaeth - y gwenyn sydd wrth y llyw, ac mae'n ymddiried yn llwyr ynddynt. Mae'r cwmni yn edrych am bacwyr mêl, felly os oes diddordeb gennych cysylltwch â david@tropicalforest.com.

Betsan Siencyn



'Taith Chwilota Drwy'r Coed'

Ar 'Daith Hydref Drwy'r Coed' gyda'r chwilotwr proffesiynol Jade Mellor

<https://bit.ly/3HYjz6u>

www.cletwr.com

01970 832 113 ✉ cletwr@cletwr.com

Cletwr

Dathliadau Sefydliad y Merched yn Eglwysfach



Cynhaliwyd dau achlysur hapus ar brynhawn Sul braf, ar Fedi 25ain mewn pabell ar lawnt Gwesty Ynysir. Daeth dros hanner cant o aelodau hen a newydd Sefydliad y Merched, pell ac agos, i ddathlu canmlwyddiant y mudiad. Cawsom yr anrhydedd o gael cwmni Mrs Eirian Roberts, Ysbyty Ifan, Cadeirydd Cymru y mudiad, sydd hefyd yn fam i Lona Mason, Maesycod, Ffwrnais. Hefyd, Ann Jones, Tregaron, Y Cadeirydd Cenedlaethol, a roddodd anerchiad diddorol, a hefyd Leslie Jones, Cadeirydd Ceredigion. Yn ôl arferiad y sefydliad, cafwyd lluniaeth rhagorol, a chacen arbennig efo siampnen!

Roedd yn anrhydedd cael presenoldeb aelod hynaf y mudiad, sef Penny Condry, Ynysedwin, a oedd wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed, y diwrnod cynt. Yn naturiol felly, hi gafodd y fraint o dorri'r gacen. Mae wedi byw yn y pentref ers dros 70 o flynyddoedd, ei diddordeb mwyaf yw ei gardd sydd bob amser yn werth i'w gweld, a byd natur. Llongyfarchiadau mawr iddi, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.





Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda 



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

**MID WALES
STORAGE** www.midwalesstorage.co.uk

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Clwb Gwawr y Pennau Gŵyl R S Thomas



Nos Sadwrn 8 Hydref cynhaliodd Clwb Gwawr y Pennau ei noson agoriadol am y tymor yng Nghaffi Cletwr. Noson caws a gwin, cyfle am sgwrs a llunio rhaglen o weithgareddau. Roedd hi'n braf gweld nifer dda wedi dod, o ardaloedd gwahanol – Bow Street, Tal-y-bont, Tre'r Ddôl, Capel Bangor a mannau eraill. Roedd rhai'n nabod ei gilydd cynt, eraill ddim, felly roedd hi'n braf cyfarfod a sgwrsio â phobl newydd. Buom yn rhoi'r byd yn ei le, roedd y caws yn fflasus iawn a'r gwin yn hyfryd. Diolch i Gaffi Cletwr am gael cynnal y noson yno – lle gwych i gynnal digwyddiad. Roedd llu o syniadau gan bawb am nosweithiau posibl ar gyfer y tymor. Mae'n argoeli i fod yn flwyddyn dda gyda nifer o nosweithiau difyr ac amrywiol. Croeso mawr i aelodau newydd – os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch â Catrin ar catrin77@hotmail.co.uk

Nest Gwilym

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun, 19 Medi, ymunodd yr aelodau â changen MYW Aberystwyth yng Nghanolfan Arad Goch i weld y ffilm 'Gwlan, Gwlan, Gwlana', prosiect rhanbarth Ceredigion a gafodd ei 'phremiere' yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron.

Ond cyn gweld y ffilm honno, gyda chryn falchder y dangosodd cangen Tal-y-bont a'r Cylch ffilm fer a baratowyd gan yr aelodau ar gyfer y prosiect hwnnw – a chafwyd ymateb ardderchog iddi.

I gloi'r noson mwynhawyd tamaid o fwyd a glasied bach o win!

Bydd ein cyfarfod nesaf yng ngwaelod y Neuadd Goffa ar nos Lun, 17 Hydref pan fydd Llinos Dafis yn dod atom. Beth am ymuno â ni? Byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes.



Dathlir bywyd y bardd Ronald Stuart Thomas, neu R. S. Thomas yn flynyddol mewn gŵyl a gynhelir yn Eglwys-fach. Eleni, cynhaliwyd yr ŵyl rhwng y 16eg a'r 18fed o Fedi ac fe groesawyd cannoedd o bobl i'r ardal i ddysgu a dathlu bywyd a gwaith y bardd. Ar y diwrnod cyntaf, arweiniodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru daith dywys i weld yr adeiladau a thirwedd oedd yn gyfarwydd i R. S. Thomas pan oedd yn ficer yn Eglwys-fach. Yna, cyflwynodd yr Athro Richard Mayou, Cymrawd Emeritws Seiciatreg Coleg Nuffield 'Eglwys-fach a Dyffryn Dyfi' i'r gynulleidfa.

Ar yr ail ddiwrnod, arweiniodd yr Hybarch Eileen Davies MBE, Archddiacon Aberteifi wasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel, lle'r oedd R. S. Thomas yn ficer rhwng 1954-67. Bu'r Gwir Parchedig Rowan Williams, yr Arglwydd Williams o Ystumllwynarth yn pregethu yn ystod y gwasanaeth, ac fe wnaeth gyflwyniad yno yn hwyrach yn y dydd ar y testun 'cadw ffydd mewn barddoniaeth'. Cynhaliwyd sawl sgwrs a hyd yn oed noson caws a gwin yn yr ystafell haearn hefyd a dangoswyd ffilmiau o'r archif yno drwy gydol yr ŵyl.

Braf oedd gweld arddangosfa ddiweddaraf Ruth Jên yn yr Eglwys hefyd, sef casgliad o brintiau leino wedi'u hysbrydoli gan waith R. S. Thomas. Roedd y gwaith yn cynnwys printiau megis 'Gwerinwr', 'Cyfarchiad', ac 'A Priest to his People'.

Cyrhaeddwyd pinacl yr ŵyl ar y prynhawn olaf, wrth i bawb ymgynnull yn yr Eglwys unwaith eto i wrando ar y gystadleuaeth farddoniaeth agored. Gwahoddwyd beirdd i ysgrifennu un neu ddwy gerdd mewn ymateb i ddyfyniadau o farddoniaeth R. S. Thomas. Cafodd 90 o gerddi eu beirniadu gan Gillian Clarke (Bardd Cenedlaethol Cymru, 2008-16) a'r Athro Tony Brown (Cydyfarwyddwr Canolfan Ymchwil R. S. Thomas, Prifysgol Bangor), doedd dim syndod felly bod yr Eglwys yn orlawn! Cyhoeddwyd mai Mair De-Gare Pitt oedd y bardd buddugol am ei cherdd 'After Fifty Years', llongyfarchiadau i chi ac i'r pwyllgor am drefnu gŵyl mor hwyliog a phwysig.

Betsan Siencyn



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Chwaraeon a Hamdden

Rhedwyr chwim (a dewr!)

Mae'n rhaid bod tirwedd yr ardal yn helpu meithrin rhedwyr da, gan fod sawl rhedwr o Dal-y-bont wedi llwyddo i redeg marathon neu hanner marathon yn ddiweddar.



Dominic a Holly - Marathon Caer

Yng Nghaer ar 2 Hydref, rhedodd Dominic Jenkins farathon am y tro cyntaf erioed, a hynny mewn 3 awr 13 munud 37 eiliad. Rhedodd Holly Aubrey farathon Caer hefyd, a hynny er mwyn codi arian i brynu adnoddau ar gyfer y Cylch Meithrin. Llwyddodd i'w gwblhau mewn 4 awr 4 munud 30 eiliad, sef 11 munud yn gynt na'r marathon gyntaf iddi ei rhedeg, yn ogystal â chodi £755, dros £200 yn fwy na'i tharged! Tipyn o gamp, yn wir!



Paul a Julie - Marathon Berlin

Ar yr un dyddiad, rhedodd Paul Williams, sy'n gweithio yn y Lolfa, farathon Llundain mewn 3 awr 9 munud 57 eiliad. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw bod Paul wedi rhedeg marathon Berlin wythnos yn unig cyn hynny, a hynny mewn 3 awr 2 funud 12 eiliad! Roedd Julie Williams, sydd hefyd yn gweithio yn y Lolfa, wedi llwyddo i redeg marathon Berlin mewn 5 awr 21 munud 47 eiliad.

I gyd-fynd â marathon Llundain roedd Elaine Rowlands wedi rhedeg marathon rithiol yn lleol, a hynny mewn 4 awr a 42 munud.

Yng Nghaerdydd wedyn, rhedodd Gwenallt Llwyd Ifan yr hanner marathon mewn 1 awr 54 munud, gydag Arthur Dafis yn weddol dynn wrth ei sodlau, yn cwblhau mewn 1 awr 55 munud. Rhedodd Jodie Hughes hefyd, gan gwblhau mewn 2 awr 5 munud, a llwyddodd Elan Elidyr i redeg ei hanner marathon gyntaf mewn 2 awr a 25 munud.

Canlyniadau arbennig! Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonyn nhw.

CYNRYCHIOLI CYMRU

Rhys Norrington-Davies

Wedi'i berfformiadau disglair yn nghrys coch Cymru dros y misoedd diwethaf, mae Rhys Norrington-Davies, Tal-y-bont, bron yn sicr o'i le yng ngharfan Cymru ar gyfer rowndiau terfynol Cwpan y Byd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr eleni.

Mae Rhys wedi chwarae mewn dau safle yn nhîm Cymru yn ddiweddar. Fel cefnwr chwith ymosodol yn erbyn yr Iseldiroedd ym mis Mehefin, llwyddodd i sgorio ei gôl gyntaf dros ei wlad. Ymddangosodd yng nghwrt cosbi'r Iseldiroedd gan neidio'n uchel a phenio'r bêl yn nerthol i gefn y rhwyd i unioni'r sgôr. Gwaetha'r modd fe ildiodd Cymru gôl hwyr a cholli'r gêm 1-2.

Mae Rhys hefyd wedi chwarae ar ochr chwith yr amddiffyn o dri pan oedd Ben Davies wedi'i anafu gan fwrw ei brentisiaeth yn erbyn pêl-droedwyr gorau'r byd fel Kevin de Bruyne a Robert Lewandowski – profiad anhygoel i un mor ifanc.

Mae Rhys hefyd wedi cael dechrau da i'r tymor gyda'i glwb Sheffield United sydd ar hyn o bryd ar frig Adran y Bencampwriaeth.

Bydd *Papur Pawb* yn cadw golwg ar hynt a helynt Rhys yn ystod y cyfnod nesaf gan obeithio'n fawr y caiff ef a Chymru lwyddiant yn Qatar.

Pysgota: Parhau o dudalen 1

Roedd y tywydd yn ffafriol iawn ac ar ôl wyth awr o bysgota fe ddaliodd Sean saith pysgodyn a fi yn llwyddo i ddal pump. Yr hyn oedd yn bwysig am y gystadleuaeth yma oedd mai pysgota fel tîm o ni, gyda chyfanswm yr holl bysgod a ddaliwyd gan bob unigolyn yn y tîm yn penderfynu pa wlad oedd yr enillwyr.

Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd Yr Alban gyrhaeddodd y brig a llongyfarchiadau mawr iddynt ar ei llwyddiant. Daeth Tîm Cymru yn ail gan gipio'r fedal arian.

Canlyniadau

Yr Alban 112 pysgodyn; Cymru 92 pysgodyn; Lloegr 77 pysgodyn; Iwerddon 74 pysgodyn.

Hoffwn ddiolch i Malcom a'r tîm yn Llyn Trawsfynydd am eu croeso ac am yr holl waith tu ôl i'r llenni. Hefyd diolch i Gyngor Ceredigion am ei nawdd.

Ar ôl cymalau eleni rwyf wedi llwyddo i ennill fy 2il gap dros Gymru ac ym mis Medi 2023 byddaf yn pysgota ar Loch Mentith ger Sterling, yn Yr Alban. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at y sialens honno.

Treialon Cŵn Defaid: Parhau o dudalen 1

Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Castle Howard, Swydd Efrog rhwng y 9fed a'r 11eg o Fedi. Yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf, bu 60 ci a bugail yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ennill un o'r pymtheg lle oedd ar gael yn y rownd derfynol ar y trydydd diwrnod. Llwyddodd Dewi a phedwar Cymro arall i ennill digon o farciau yn y rownd gyntaf i sicrhau lle yn y rownd derfynol. Wynebai Dewi a Jock gwrs llawer anoddach yn y rownd hon, gyda 800m o bellter i Jock gyrchu 10 dafad, cyn i Dewi ei ddanfôn yn ôl i'r ochr arall i grynhoi 10 dafad arall er mwyn gyrru'r 20 dafad o amgylch y cwrs gyda'i gilydd, gan fynd trwy ddau bâr o giatiau. Yna, roedd yn rhaid i'r ddau weithio fel tîm i ddidoli a chadw'r pum dafad gyda choleri i'w corlannu. Daethant i'r brig gyda chyfanswm o 563 o farciau, ac ennill y teitl Pencampwr Rhyngwladol, un o'r teitlau mwyaf anrhydeddus y gellir ei ennill yn y byd treialon.

Yn ogystal â'r teitl haeddiannol, fe enillodd Dewi 7 o brif wobrau'r gystadleuaeth, gan gynnwys y Darian Pencampwr Goruchaf anferth, a Bowlen Rhosyn McDiarmid a Tharian Rotherhill gan mai ef oedd perchennog tad Jock hefyd, sef Moss, a enillodd sawl cystadleuaeth treialon ar hyd ei oes. Llongyfarchiadau gwresog i ti, Dewi ar dy llwyddiant, sy'n dipyn o gamp wrth ystyried mai dim ond 30 oed wyt ti.